# Hysbyseb Secondiad - Secondment Advert

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd / Job Title:** | Uwch Reolwr Strategaeth Gwaith Ieuenctid – Deddfwriaeth a Gwaith Rhanbarthol |
| **Band Cyflog / Pay Band:** | Swyddog Gweithredol Hŷn<br>(£41,700-£49,370)<br><br>Bydd y cyfle hwn yn secondiad i Lywodraeth Cymru a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn aros ar delerau ac amodau gwasanaeth a chyflog presennol eu cyflogwr |
| **Lleoliad / Location:** | Cymru gyfan |
| **Hyd y swydd os dros dro / Duration of post if temporary:** | Cyfnod penodol am 2 flynedd |
| **Patrwm gwaith /**<br>**Pattern of working** | Llawn amser<br>Ystyrir ceisiadau gan y rhai sydd am weithio'n rhan-amser neu ar sail rhannu swydd. |
| **Dyddiad cau / Closing Date:** | Hanner dydd, dydd Mercher 25 Ionawr 2023 |

| **Pwrpas y swydd / Purpose of Post:** |
|---|
| Gwnaeth y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro, oedd ar waith rhwng 2018 a 2022, 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei adroddiad terfynol – 'Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru' - ar gyfer sefydlu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid. Mae datblygu a gweithredu'r argymhellion hyn yn un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.<br><br>Fel rhan o fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn, bydd gwaith deiliad y swydd hon yn canolbwyntio'n benodol ar:<br>• gryfhau neu sefydlu sail ddeddfwriaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru<br>• sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru<br>• sefydlu partneriaethau darparu rhanbarthol i gefnogi darpariaeth leol o wasanaethau gwaith ieuenctid.<br><br>Bydd deiliad y swydd hon hefyd yn gwneud gwaith polisi parhaus o fewn y Gangen Ymgysylltu Ieuenctid, gan gynnwys gweithio gyda'r Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuenctid, ei Grwpiau Cyfranogiad Gweithredu a rhanddeiliaid eraill, yn ogystal â gydag eraill ar draws Llywodraeth Cymru, gan gyfrannu at feysydd gwaith eraill i ddatblygu a gwneud cynnydd ar argymhellion y Bwrdd Dros Dro. |

| **Prif dasgau / Key Tasks:** |
| --- |
| Bydd deiliad y swydd hon yn ymuno â'r Gangen Ymgysylltu Ieuenctid ar gyfnod cyffrous a hollbwysig i waith ieuenctid yng Nghymru wrth i ni lunio a datblygu argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Bydd gwaith deiliad y swydd yn canolbwyntio ar:<br>• arwain ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sector gwaith ieuenctid a thu hwnt i gasglu tystiolaeth o sut mae'r gofynion deddfwriaethol presennol sy'n effeithio ar waith ieuenctid yn cael eu bwydo i mewn i gynllunio a darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru<br>• adnabod a datblygu opsiynau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, a gweithio gyda thimau ar draws Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i helpu i'w rhoi ar waith<br>• cefnogi gwaith i ystyried datblygu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, gan gynnwys nodi cysylltiadau rhwng ei strwythur a'i gyfrifoldebau posibl a chamau sy'n cael eu cymryd i gryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, a chymryd camau i sicrhau bod y ffrydiau gwaith hyn wedi eu halinio yn llawn<br>• gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i archwilio sut y gall arferion presennol a datblygiadau yn y dyfodol sicrhau bod partneriaethau cyflawni rhanbarthol yn cefnogi cyflawni gwasanaethau gwaith ieuenctid lleol. |

| **Gofynion Iaith Gymraeg / Welsh Language Requirements:** |
| --- |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol. |

| **Meini Prawf Penodol i'r Swydd / Job Specific Criteria:** |
| --- |
| 1. Tystiolaeth o ddealltwriaeth gadarn o'r sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, yn ddelfrydol gan gynnwys y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail iddo.<br>2. Profiad o gasglu a dadansoddi gwybodaeth gymhleth a allai wrthdaro â'i gilydd i ddatblygu opsiynau clir ar gyfer y camau nesaf.<br>3. Profiad o ddatblygu perthnasoedd effeithiol gydag ystod o randdeiliaid gyda thystiolaeth o'r gallu i gyfathrebu i safon uchel ar lafar ac yn ysgrifenedig. |

| **Sut i wneud cais / How to apply:** |
| --- |
| Lluniwch ddatganiad o ddiddordeb (dim mwy na 2 ochr o bapur A4) yn egluro pam yr ydych yn teimlo y byddech yn addas i'r swydd os gwelwch yn dda, gan dynnu sylw at eich profiad blaenorol; dylech hefyd gyfleu sut yr ydych yn bodloni'r tri maen prawf uchod.<br>Anfonwch eich datganiad o ddiddordeb os gwelwch yn dda at Dyfan Evans – dyfan.evans@llyw.cymru – erbyn 12pm (canol dydd) ar ddydd Mercher 25 Ionawr 2023.<br>Byddwn yn cysylltu â chi dros e-bost ynghylch canlyniad y broses sifftio ceisiadau. Os byddwch yn llwyddiannus yn y cam hwn, cewch eich gwahodd i gyfweliad rhithiol. |

| **Gwybodaeth bwysig / Important information:** |
| --- |
| Mae hwn yn secondiad tymor penodol am 2 flynedd<br>Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn ymuno â Llywodraeth Cymru ar sail secondiad. Bydd angen ichi fod â chontract o ddwy flynedd o leiaf gyda'ch cyflogwr presennol er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio am y cyfle hwn.<br>Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Dyfan Evans – dyfan.evans@llyw.cymru |